22 Mehefin 2018

Telerau ac Amodau gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol

FERSIWN: 3

DYDDIAD YR ADDASWYD DDIWETHAF: 22 Mehefin 2018

TELERAU AC AMODAU AR GYFER GWASANAETH DILYSU HUNANIAETH Y POST BRENHINOL

1 Y TELERAU HYN

1.1 Dyma'r telerau ac amodau ar gyfer cyflenwi gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol ar eich cyfer Chi.

1.2 Rydym yn argymell eich bod Chi yn darllen y Telerau ac Amodau hyn yn ofalus ac yn argraffu copi er gwybodaeth i Chi. Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn dweud wrthych Chi pwy ydym ni, sut y byddwn yn darparu gwasanaethau ar eich cyfer Chi, sut y gallwch Chi a ni newid neu ddod â'r contract i ben, beth i'w wneud os oes problem a gwybodaeth bwysig arall. Os nad ydych Chi yn deall unrhyw bwynt, cysylltwch â ni i drafod cyn i Chi gofrestru, gan ddefnyddio'r manylion yng nghymal 2.2.

1.3 Gall fod gennych hawliau defnyddwyr eraill yn ôl y gyfraith ac nid yw'r Telerau ac Amodau hyn yn effeithio ar hawliau o'r fath.

2 GWYBODAETH AMDANOM NI A SUT I GYSYLLTU Â NI

2.1 Mae gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn enw masnachu i Grŵp y Post Brenhinol, cwmni cyfyngedig cyhoeddus wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif cwmni 4138203 gyda chyfeiriad swyddfa gofrestredig yn 100 Victoria Embankment, London, EC4Y 0HQ.

2.2 Gallwch gysylltu â ni trwy ffonio ein Desg Gymorth ar 0345 266 0116 neu trwy anfon ebost at identityverification@royalmail.com neu trwy ysgrifennu atom yn FREEPOST ROYAL MAIL IDENTITY VERIFICATION.

2.3 Gallwn gysylltu â chi o dan yr amgylchiadau gwahanol canlynol:

(a) os byddwch yn gwneud cyswllt â ni, ac os felly byddwn yn ymateb i Chi naill ai dros y ffôn neu trwy ysgrifennu atoch Chi yn y cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad post a ddarparwyd gennych Chi i ni fel rhan o'ch cofrestriad Chi; neu

(b) mae angen i ni gyfathrebu ynghylch diweddariad gwasanaeth hanfodol yn ymwneud â gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, ac os felly byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig yn y cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad post a ddarparwyd gennych Chi fel rhan o'ch cofrestriad Chi; neu

(c) mae angen i ni gyfathrebu ynghylch diweddariad gwasanaeth nad yw'n hanfodol yn ymwneud â gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, ac os felly byddwn yn eich hysbysu trwy ysgrifennu

atoch Chi yn y cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad post y byddwch yn ei roi i ni fel rhan o'ch cofrestriad Chi.

3 EIN CONTRACT NI GYDA CHI

3.1 Mae'r Telerau ac Amodau hyn (ynghyd ag unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddynt) yn gytundeb cyfreithiol a rhwymol rhyngoch Chi a ni ac maent yn llywodraethu eich defnydd Chi o wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol.

3.2 Trwy ddewis y blwch nodi wrth gofrestru ar gyfer gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol rydych Chi yn cadarnhau eich bod Chi yn derbyn y Telerau ac Amodau hyn ynghyd â'r Polisi Preifatrwydd a'r Polisi Cwcis (ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn unrhyw un ohonynt). Rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn.

3.3 Bydd derbyn eich archeb Chi yn digwydd pan fyddwn yn anfon ebost atoch Chi yn eich hysbysu ein bod yn derbyn eich cofrestriad Chi, pan fydd contract yn dod i fodolaeth rhyngoch Chi a ni.

3.4 Bydd y contract hwn yn parhau i fodoli a byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol nes eich bod Chi neu ni yn terfynu'r contract hwn yn unol â chymal 13.

4 DIFFINIADAU

4.1 Pan gaiff y geiriau canlynol eu defnyddio yn y Telerau ac Amodau hyn, dyma'r hyn y byddant yn ei olygu:

(a) "ni", neu "ein": Grŵp y Post Brenhinol;

(b) "Chi" neu "Eich": y person sy'n dymuno cael mynediad i a/neu ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol;

(c) Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol: gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol a ddarperir gennym ni ar eich cyfer Chi fel y disgrifir ymhellach, ac sydd ar gael i Chi, ar-lein o bryd i'w gilydd ac ar yr un telerau a nodir yn y Telerau ac Amodau hyn, ein Polisi Preifatrwydd a'n Polisi Cwcis;

(d) Manylion Sicrhau Hunaniaeth: eich dogfennau hunaniaeth unwaith y maent wedi cael eu dilysu gan wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol;

(e) Polisi Cwcis: ein Polisi Cwcis sydd ar gael ar y Wefan sy'n cael ei ddiwygio gennym ni o bryd i'w gilydd;

(f) Deddf Diogelu Data: Deddf Diogelu Data 1998 (sy'n cael ei diwygio neu ei hailweithredu o bryd i'w gilydd);

(g) Digwyddiad y Tu Hwnt i'n Rheolaeth Ni: unrhyw weithred neu ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, yn cynnwys heb gyfyngiad, streic, cloi allan neu weithredu diwydiannol arall gan drydydd partïon, cynnwrf sifil, reiat, ymosodiad, ymosodiad terfysgol neu fygythiad o ymosodiad terfysgol, rhyfel (p'un ai wedi ei datgan neu beidio) neu fygythiad neu baratoi at ryfel, tân, ffrwydrad, storm, llifogydd, daeargryn, ymsuddo, epidemig neu drychineb naturiol arall, methiant, oedi neu amharu ar rwydweithiau telathrebu neu gyhoeddus eraill, y rhyngrwyd, ymosodiadau gwrthod gwasanaeth, methiannau offer cyfrifiadurol neu fethiannau offer eraill nad ydynt o dan ein rheolaeth;

(h) Ymarfer Diwydiannol Da: ar unrhyw adeg ymarfer y graddau gofal, sgil, diwydrwydd, pwyll, effeithlonrwydd, rhagofal a phrydlondeb a ddisgwylir yn rhesymol ar adeg o'r fath gan ddarparwr blaenllaw ac arbenigol o wasanaethau sydd yn debyg i wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, gyda darparwr o'r fath yn ceisio cydymffurfio â dyletswyddau eu contract yn llawn ac yn unol â chyfreithiau perthnasol;

(i) Adran y Llywodraeth: adrannau Llywodraeth y DU sydd yn derbyn Dogfennau Hunaniaeth wedi eu Sicrhau unigolion sy'n dymuno defnyddio eu gwasanaethau ar-lein, fel adnewyddu eich trwydded yrru Chi yn y DVLA neu ffeilio eich treth Chi yn HMRC;

(j) Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth: Uned yn Swyddfa'r Cabinet sy'n darparu GOV.UK Verify i'ch galluogi Chi i ddilysu Eich Hunaniaeth er mwyn i Chi ddefnyddio gwasanaethau Adrannau'r Llywodraeth;

(k) Desg Gymorth: desg gymorth gwasanaethau cwsmeriaid gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol sydd ar gael i'ch cynorthwyo Chi gyda'ch defnydd Chi o wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn 0345 266 0116 neu ar ebost yn identityverification@royalmail.com.

(l) Manylion Mewngofnodi: unrhyw gôd adnabod, PIN, allwedd breifat, cyfrinair neu wybodaeth arall a ddarperir gennym ni neu sydd wedi ei gadarnhau gennym ni i Chi (fel y gellir ei ddiweddaru neu ei ddiwygio gennych Chi neu ni o bryd i'w gilydd) i'ch galluogi Chi i gael mynediad i'ch cyfrif gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol;

(m) Ein Deunydd: unrhyw neu'r cyfan o'r cynnwys, data a'r deunyddiau sy'n cael eu cyflenwi i Chi fel rhan o wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol neu a geir ar y Wefan, yn cynnwys eu dyluniad, testun a graffeg a'u detholiad a'u trefniant, a'r holl ddetholiadau meddalwedd, côd ffynhonnell sylfaenol a meddalwedd;

(n) Data Personol: mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn y Ddeddf Diogelu Data yn ymwneud ag unrhyw ddata yr ydych Chi wedi ei ddarparu i ni mewn cysylltiad â gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol;

(o) Polisi Preifatrwydd: ein Polisi Preifatrwydd sydd ar gael ar y Wefan ac fel y'i diwygir gennym ni o bryd i'w gilydd;

(p) Telerau ac Amodau: y Telerau ac Amodau hyn ar gyfer gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol fel y'u diwygir gennym ni o bryd i'w gilydd;

(q) Cynnwys Trydydd Parti: unrhyw gynnwys a deunydd sydd yn berchen i ddarparwr cynnyrch a/neu wasanaethau trydydd parti (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i, Wasanaeth Digidol y Llywodraeth);

(r) Gwefan Trydydd Parti: gwefan trydydd parti (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i' Wasanaeth Digidol y Llywodraeth neu Adran y Llywodraeth) sydd yn gysylltiedig â neu o'r Wefan neu ar fframiau yn y Wefan;

(s) Gwefan: y dudalen lanio y cewch Chi eich cyfeirio ati pan fyddwch yn dewis gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol fel eich darparwr gwasanaeth dilysu hunaniaeth ddewisol ar y Wefan Trydydd Parti, ac unrhyw wefan(nau) eraill y gallwn eu defnyddio o bryd i'w gilydd.

5 GWASANAETH DILYSU HUNANIAETH A CHOFRESTRU Y POST BRENHINOL

5.1 Mae Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn dymuno gwneud rhai gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan Adrannau Llywodraeth y DU (yn cynnwys mynediad i rai cofnodion) ar gael i ddinasyddion ar-lein. Er budd diogelwch, mae'n rhaid sicrhau hunaniaeth dinasyddion cyn iddynt gael mynediad i'r gwasanaethau hyn.

5.2 Diben gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yw cael ei ddefnyddio i roi Manylion Sicrhau Hunaniaeth i Chi, y gallwch Chi eu defnyddio i gael mynediad i wasanaethau'r llywodraeth sy'n cael eu cynnig gan Adrannau'r Llywodraeth.

5.3 I fod yn gymwys i ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, mae'n rhaid i Chi fod yn 16 oed neu'n hŷn, yn gymwys i fyw a gweithio yn y DU a/neu â Thrwydded Yrru gyfredol y DU.

5.4 Darperir gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol ar eich cyfer Chi at ddiben personol ac anfasnachol yn unig.

5.5 I ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol mae'n rhaid i Chi ddilyn y camau canlynol:

(a) Cofrestru ar ein Gwefan a chreu cyfrif gyda ni ar gyfer gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol trwy ddarparu'r wybodaeth, y data a'r deunydd amdanoch Chi eich hun yr ydym yn gofyn amdanynt a thrwy ddilyn y gweithdrefnau diogelwch.

(b) Os na allwn gofrestru eich cyfrif (e.e. am nad ydych Chi wedi cynnwys digon o wybodaeth i gyflwyno cais ar gyfer cofrestru), byddwn yn eich hysbysu Chi o hyn yn ysgrifenedig ac ni fyddwn yn parhau gyda gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol fel y nodir isod.

(c) Os ydym yn cofrestru eich cyfrif byddwn yn anfon cyfrinair unigryw atoch. Mae'n rhaid i chi gadw cofnod o hyn am mai hwn fydd eich Manylion Sicrhau Hunaniaeth os byddwn yn dilysu eich hunaniaeth yn llwyddiannus.

(d) Mae'n rhaid i chi wedyn roi mwy o wybodaeth, data a deunydd i ni amdanoch Chi a dilyn y gweithdrefnau diogelwch.

(e) Byddwn wedyn yn ceisio dilysu eich hunaniaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth, y data a'r deunydd hwn.

(f) Os byddwn yn gallu dilysu eich hunaniaeth Chi, bydd eich cyfrinair yn dod yn weithredol i weithredu fel eich Manylion Sicrhau Hunaniaeth. Byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig o fewn 5 munud os ydych wedi bod yn llwyddiannus.

(g) Os nad yw'r wybodaeth, y data a/neu'r deunyddiau y byddwch Chi yn eu darparu yn ein galluogi ni i ddilysu eich hunaniaeth, ni fydd eich cyfrinair yn gweithredu fel Eich Manylion Sicrhau Hunaniaeth. Byddwn yn eich hysbysu Chi yn ysgrifenedig o fewn 5 munud os ydych wedi bod yn aflwyddiannus a gallwch Chi gysylltu â'n Desg Gymorth am gyngor.

5.6 I ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol mae'n rhaid i chi fod yn defnyddio, fel isafswm, un o'r cyfuniadau o systemau gweithredu wedi eu cefnogi a'r porwyr a nodir isod:

(a) Pen Desg:

(i) Windows: Internet Explorer 7 neu 8+, Google Chrome (fersiwn diweddaraf) neu Mozilla Firefox (fersiwn diweddaraf), neu

(ii) Mac OS X: Safari 7+, Google Chrome (fersiwn diweddaraf) neu Mozilla Firefox (fersiwn diweddaraf)

(b) Dyfeisiadau sgrîn fach:

(i) IOS Fersiwn 5, 6 neu 7+: Mobile Safari neu Google Chrome,

(ii) Android Fersiwn 4.x: Google Chrome neu Android Brower, neu

(iii) Windows Phone Fersiwn 8.1: Internet Explorer

5.7 Rydych yn cytuno i ddarparu'r wybodaeth, y data a'r deunyddiau cywir, cyflawn a mwyaf diweddar i ni ar gyfer gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol.

6 IS-GONTRACTIO

Mae gennym yr hawl i benodi trydydd partïon i gyflawni unrhyw un o'n dyletswyddau yn unol â'r Telerau ac Amodau fodd bynnag rydym yn dal yn atebol i Chi am gyflawni'r dyletswyddau hyn.

7 DIOGELWCH

7.1 Bydd angen i chi ddefnyddio eich Manylion Mewngofnodi Chi yn cynnwys eich cyfrinair personol Chi i fewngofnodi i'ch cyfrif Chi unwaith y mae wedi cael ei greu. Mae'r Manylion Mewngofnodi yn bersonol i Chi a Chi sy'n gyfrifol am gadw eich Manylion Mewngofnodi yn gyfrinachol. Rydych yn cytuno i beidio rhannu eich Manylion Mewngofnodi Chi gydag unrhyw berson neu endid arall a byddwch Chi yn cymryd pob cam rhesymol i atal mynediad diawdurdod, lladrad, colled neu gam-drin yn ymwneud â'ch Manylion Mewngofnodi.

7.2 Mae'n rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl os ydych Chi yn gwybod neu'n amau unrhyw weithgaredd diawdurdod ar eich gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol neu fod unrhyw un wedi cael eich Manylion Mewngofnodi, neu os ydych Chi yn dod yn ymwybodol o unrhyw dor-rheol o ran diogelwch yn ymwneud â gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol.

7.3 Gallwch gysylltu â ni trwy'r Ddesg Gymorth neu trwy ein gwasanaeth sgwrsio ar y we ar-lein gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yng nghymal 2.2. Wrth dderbyn hysbysiad dilys, byddwn yn dileu neu'n atal dilysrwydd eich Manylion Sicrhau Hunaniaeth.

7.4 Ac eithrio pan fyddwch Chi yn ein hysbysu ni yn unol â chymal 7.2, ni fyddwn yn atebol i Chi os oes mynediad diawdurdod i'ch manylion Mewngofnodi Chi neu weithgaredd diawdurdod ar eich cyfrif gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol o ganlyniad i rywun arall yn defnyddio eich Manylion Mewngofnodi.

8 EIN HAWLIAU I WNEUD NEWIDIADAU I'R GWASANAETH A/NEU'R TELERAU AC AMODAU

8.1 Gallwn newid gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol a/neu'r Telerau ac Amodau unrhyw bryd trwy roi rhybudd i chi a/neu trwy gyhoeddi newidiadau o'r fath neu delerau newydd ar ein gwefan fel a ganlyn:

(a) os yw'r newid naill ai i wasanaeth Dilysu Hunaniaeth a/neu Delerau ac Amodau y Post Brenhinol yn arwyddocaol, byddwn yn eich hysbysu Chi o'r newidiadau hyn trwy anfon e-bost atoch Chi a byddwn yn cyhoeddi'r newid i'r gwasanaeth a/neu'r Telerau ac Amodau diwygiedig ar y wefan; neu

(b) os nad yw'r newid i wasanaeth Dilysu Hunaniaeth a/neu Delerau ac Amodau y Post Brenhinol yn arwyddocaol, byddwn yn cyhoeddi'r newid i'r gwasanaeth a/neu i'r Telerau ac Amodau diwygiedig ar y wefan yn unig.

9 PREIFATRWYDD EICH DATA

9.1 Rydym yn ystyried eich preifatrwydd a diogelwch eich Data Personol Chi yn ddifrifol iawn ac rydym yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf Diogelu Data. Byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth a roddir i ni gennych Chi neu a gesglir gennym ni yn ystod eich defnydd Chi o wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn unol â'n Polisi Preifatrwydd yn unig.

9.2 Rydych yn cydnabod bod gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn wasanaeth dilysu ac rydych Chi yn cytuno y gallwn ddefnyddio eich Data Personol Chi i gynnal chwiliadau at ddibenion dilysu eich hunaniaeth. Er mwyn gwneud hyn gallwn wirio eich Data Personol Chi yn erbyn unrhyw fanylion ar unrhyw gronfa ddata (cyhoeddus neu fel arall) y mae gennym fynediad iddo o bryd i'w gilydd a gallwn roi eich manylion i asiantaethau cyfeirio credyd er mwyn cynnal gwiriad hunaniaeth. Bydd cofnod o unrhyw chwiliad yn cael ei gadw gennym ni at ddibenion archwilio cyhyd â bod angen ac a ganiateir yn unol â thelerau ac amodau'r Ddeddf Diogelu Data.

9.3 Noder y gallwn ni a/neu Wasanaeth Digidol y Llywodraeth hysbysu ynghylch unrhyw weithgareddau amheus mewn perthynas â'ch rhyngweithio Chi gyda ni fel rhan o wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol i unrhyw asiantaeth briodol neu gorff perthnasol arall, fel yr Heddlu a/neu awdurdodau perthnasol eraill.

9.4 Pan fyddwch Chi yn cael eich atgyfeirio atom Ni gan Adran o'r Llywodraeth, rydych Chi yn cydnabod eich bod wedi gofyn i ni drosglwyddo gwybodaeth yn ymwneud â chanlyniadau eich hunaniaeth Chi yn ôl i'r Adran o'r Llywodraeth yn unol â'r Polisi Preifatrwydd. Os, yn y dyfodol, byddwch Chi yn defnyddio cyfrif gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol i ddilysu eich hunaniaeth Chi ar gyfer Adran wahanol o'r Llywodraeth, rydych Chi yn cydnabod ar eich cais Chi y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth am ganlyniadau dilysu eich hunaniaeth i'r Adran honno o'r Llywodraeth hefyd yn unol â'r Polisi Preifatrwydd yn seiliedig ar y wybodaeth yr ydych Chi wedi ei rhoi i ni hyd at ddyddiad y cais hwnnw. Gallwn hefyd drosglwyddo gwybodaeth am ganlyniadau dilysu eich hunaniaeth Chi i Wasanaeth Digidol y Llywodraeth er mwyn hysbysu ynghylch gweithgaredd amheus a/neu dwyllodrus.

10 EIN DYLETSWYDDAU I CHI AC YMWRTHODIADAU

10.1 Fel rhan o'n dyletswyddau i Chi, byddwn yn darparu gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol:

(a) gyda gofal a medrusrwydd rhesymol fel y disgrifir ar y Wefan;

(b) i safon sydd o leiaf yn gyfwerth ag Ymarfer Da Diwydiant; a

(c) chan gydymffurfio â'r Polisi Preifatrwydd, y Polisi Cwcis a'r Telerau ac Amodau hyn.

10.2 Er ein bod yn ceisio sicrhau bod gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn gweithio'n gywir, efallai na fydd yn bosibl cyflawni hyn bob amser. Nid ydym yn gwarantu y bydd gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol ar gael drwy'r amser neu ar unrhyw adeg benodol. Gall gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol gael ei atal dros dro os yw systemau TG neu'r seilwaith a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn cael eu hatgyweirio neu eu cynnal a'u cadw neu os nad ydynt ar gael ar oherwydd Digwyddiad y Tu Hwnt i'n Rheolaeth Ni.

10.3 Nid ydym yn gwarantu y bydd gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn cyd-fynd â'r holl neu unrhyw galedwedd neu feddalwedd y gallech Chi ei ddefnyddio.

10.4 Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol a'n Deunyddiau Ni yn rhydd rhag feirysau cyfrifiadurol a rhaglenni cyfrifiadurol niweidiol eraill. Fodd bynnag, ni allwn sicrhau hyn. Fe'ch cynghorir i ddefnyddio meddalwedd wal dân a gwrth-feirws priodol i amddiffyn eich cyfrifiadur a'ch data Chi.

10.5 Rydym yn defnyddio gofal a medrusrwydd rhesymol wrth chwilio a chyflenwi'r wybodaeth sydd ar gael i Chi neu mewn cysylltiad â'r Wefan neu wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol. Fodd bynnag, yn achos gwybodaeth yr ydym yn ei chael gan ffynonellau trydydd parti (yn cynnwys y manylion a ddarperir gennych Chi), ni allwn sicrhau bod y wybodaeth honno yn gywir, yn gyflawn, yn rhydd rhag gwallau neu wedi ei diweddaru.

10.6 Nid yw neu ni fydd unrhyw beth a ddarperir gennym ni neu mewn cysylltiad â'r Wefan neu wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, yn cael ei ystyried i fod yn gyngor ariannol, cyfreithiol neu'n gyngor o fath arall. Nid diben y wybodaeth yr ydym yn ei darparu yw i Chi ddibynnu arni wrth wneud (neu atal rhag gwneud) unrhyw benderfyniad penodol neu i ddisodli cyngor proffesiynol annibynnol. Mae unrhyw a'r holl wybodaeth a ddarperir gennym ni ar eich cyfer Chi neu mewn cysylltiad â'r Wefan at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig.

10.7 Ac eithrio'r ymrwymiadau yr ydym yn eu gwneud yn benodol yn y Telerau ac Amodau hyn ac unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o'ch hawliau defnyddwyr Chi yn ôl y gyfraith, nid ydym yn gwneud unrhyw ymrwymiadau neu warantu eraill am y Wefan na gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol.

11 EIN HATEBOLRWYDD I CHI

11.1 Am fwy o wybodaeth am eich hawliau cyfreithiol Chi a sut y gallai'r Telerau ac Amodau hyn effeithio arnynt rydym yn eich cynghori Chi i gysylltu â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol. Os bydd unrhyw broblemau yn codi gyda'ch defnydd Chi o'r Wefan neu wasanaeth Dilysu

Hunaniaeth y Post Brenhinol, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl trwy'r Ddesg Gymorth, fel y nodir yng Nghymal 2.2.

11.2 Nid oes unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn eithrio neu'n cyfyngu ein hatebolrwydd i Chi yn ymwneud â:

(a) marwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod ni (neu ein hisgontractwyr);

(b) ein diffyg daliad neu dwyll bwriadol ni (neu ein hisgontractwyr);

(c) ein tor cyfraith ni (neu ein hisgontractwyr);

(d) unrhyw golled, mynediad diawdurdod i neu lygredigaeth o'ch Data Personol Chi a ddelir gennym ni (neu ein hisgontractwyr) yn cynnwys unrhyw Fanylion Sicrhau Hunaniaeth a roddir mewn cysylltiad â gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol; ac

(e) unrhyw atebolrwydd na ellir ei eithrio yn ôl y gyfraith.

11.3 Ein cyfrifoldeb ni yw colled neu niwed a ddioddefir gennych Chi o ganlyniad y gellid bod wedi ei ragweld yn ymwneud â ni yn torri rheolau'r Telerau ac Amodau hyn neu ein hesgeulustod. Fodd bynnag, nid ydym yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed na ellid bod wedi ei ragweld. Gellir rhagweld colled neu niwed os oedd o ganlyniad amlwg i ni yn torri rheolau neu ein hesgeulustod ni neu os cafodd ei ystyried yn rhesymol gennych Chi a ni pan wnaethoch gofrestru ar ein Gwefan neu wrth ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol.

11.4 Eich cyfrifoldeb Chi yw sicrhau bod gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn addas ar gyfer eich anghenion Chi.

11.5 Nid ydym yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gyflawni rhan o wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol neu oedi wrth gyflawni unrhyw un o'n dyletswyddau yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn a achosir gan Ddigwyddiadau y Tu Hwnt i'n Rheolaeth Ni. Byddwn yn cysylltu â Chi cyn gynted â phosibl i roi gwybod i Chi a byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r oedi. Os oes perygl o oedi sylweddol gallwch Chi gysylltu â ni i ddod â'r contract i ben.

11.6 Nid ydym yn atebol i Chi am unrhyw golledion, niwed, costau neu dreuliau y byddwch Chi yn eu dioddef o ganlyniad i ryngweithio naill ai gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth neu Adran o'r Llywodraeth neu os na fyddwch yn gallu cael mynediad i wasanaeth Adran o'r Llywodraeth o ganlyniad i wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, ar yr amod nad yw hyn wedi ei achosi gan ein methiant ni i gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn.

11.7 Ac eithrio'r eitemau a nodir yng Nghymal 11.2, ni fydd eich atebolrwydd cyfansymiol i Chi yn deillio o neu mewn cysylltiad â'r Telerau ac Amodau hyn, yn mynd y tu hwnt i £500.

11.8 Rydym ond yn darparu gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol at ddefnydd personol, anfasnachol yn unig. Rydych yn cytuno i ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol ar gyfer unrhyw ddiben masnachol, busnes neu ailwerthu, ac

nid oes gennym unrhyw atebolrwydd i Chi am unrhyw golli defnydd, colli elw, colli busnes, colli refeniw, amharu ar fusnes neu golli cyfle busnes.

12 CWYNION

12.1 Os byddwch Chi'n dymuno gwneud cwyn am wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol gallwch Chi wneud hynny trwy ein Canolfan Gyswllt ar 0345 266 0116 neu trwy anfon ebost at identityverification@royalmail,com neu gallwch Chi ysgrifennu atom ni yn FREEPOST ROYAL MAIL IDENTITY VERIFICATION.

13 DOD Â GWASANAETH DILYSU HUNANIAETH Y POST BRENHINOL I BEN A CHAU EICH CYFRIF

13.1 Rydych yn rhydd i roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol unrhyw bryd trwy roi'r gorau i ddefnyddio'r Manylion Sicrhau Hunaniaeth gydag unrhyw wasanaeth ar-lein y byddwch Chi yn ei ddefnyddio.

13.2 Gallwch gau eich cyfrif gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol unrhyw bryd a chanslo'r contract hwn trwy ddilyn y broses dadactifadu yn eich proffil neu trwy gysylltu â'n Desg Gymorth trwy ffonio 0345 266 0116. Os hoffech ddefnyddio gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol eto yn y dyfodol bydd angen i Chi greu cyfrif gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol trwy ailgofnodi eich Data Personol Chi.

13.3 Gall fod angen i ni atal eich mynediad i ardaloedd o'r Wefan a/neu eich defnydd o wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol dros dro er mwyn:

(a) ymdrin â phroblemau technegol neu wneud newidiadau technegol;

(b) diweddaru gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol i adlewyrchu newidiadau mewn cyfreithiau perthnasol a gofynion rheoliadol;

(c) ymchwilio i a datrys gweithgaredd anghyfreithlon neu dwyllodrus neu weithgaredd sy'n awgrymu bod diogelwch eich cyfrif wedi cael ei roi mewn perygl.

13.4 Byddwn yn cysylltu â Chi ymlaen llaw i ddweud wrthych y byddwn yn atal gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol dros dro, oni bai bod y broblem yn un frys neu'n argyfwng.

13.5 Efallai fydd angen i ni derfynu eich mynediad i ardaloedd mewngofnodi o'r Wefan a/neu eich contract Chi gyda ni ar gyfer defnyddio Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol heb eich hysbysu Chi ymlaen llaw os yn ein barn ni:

(a) eich bod Chi wedi methu cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn; neu

(b) os ydym yn amau gweithgaredd anghyfreithlon neu dwyllodrus gennych Chi ar eich cyfrif Chi.

13.6 Gallwn, yn ôl ein disgresiwn, ddiddymu'r Wefan neu wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd i Chi o bythefnos o leiaf.

13.7 Os byddwn yn terfynu eich contract Chi neu'n diddymu gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, bydd eich contract Chi yn dod i ben a gallwn gau eich cyfrif gwasanaeth

Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol a dileu ein cofnodion o'ch manylion cofrestru Chi a'ch Data Personol Chi heb unrhyw atebolrwydd i Chi. Efallai fydd angen i ni gadw cofnodion a'ch Data Personol Chi ar ôl cau eich cyfrif gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, ac os felly byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r Polisi Preifatrwydd.

14 DEFNYDDIO'R WEFAN, EIN DEUNYDDIAU A GWASANAETH DILYSU HUNANIAETH Y POST BRENHINOL

14.1 Rydych yn cydnabod ein bod ni neu ein trwyddedwyr yn berchen ar yr holl hawliau yn ac i wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, y Wefan, Ein Deunyddiau, unrhyw Gynnwys Trydydd Partïon a geir ar y Wefan a gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, a'r wybodaeth y mae'r Wefan yn ei chasglu. Mae hyn yn cynnwys yr holl hawliau eiddo deallusol fel patentau, hawlfraint, hawliau cronfa ddata a nodau masnachu.

14.2 Heb gael ein caniatâd ysgrifenedig yn gyntaf, ni allwch Chi:

(a) gopïo, trosglwyddo, gwerthu, cyhoeddi neu wneud elw o unrhyw gynnwys yng ngwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol na'r Wefan;

(b) fframio na defnyddio technegau fframio i gynnwys unrhyw ran o'r Wefan neu Gynnwys TrydyddPparti; neu

(c) greu dolenni hyperddolen i'r Wefan.

14.3 Gallwch fodd bynnag argraffu tudalennau unigol ar bapur a/neu wneud nifer rhesymol o lungopïau at ddefnydd personol, anfasnachol ar yr amod nad ydych Chi yn addasu copïau o'r fath.

14.4 Rydych yn cytuno i beicio defnyddio'r Wefan a gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol mewn ffordd sydd:

(a) yn difenwi, yn bygwth, yn bwlio, yn aflonyddu ar, yn cam-drin neu fel arall yn bradychu hawliau pobl eraill neu at unrhyw ddiben anghyfreithlon neu anfoesol; neu

(b) yn amharu ar rediad llyfn gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, yn cyflwyno feirysau, ymwelwyr diwahoddiad, mwydod, bomiau rhesymeg neu ddeunydd eraill sydd yn faleisus neu'n niweidiol yn dechnegol;

(c) yn torri cyfreithiau perthnasol;

(d) yn ceisio cael mynediad i unrhyw gydran neu ran o'r Wefan neu wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol nad oes gennych Chi hawl i'w ddefnyddio yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r gweinwyr sydd yn eu cynnal neu unrhyw weinydd, cyfrifiadur neu gronfa ddata sy'n gysylltiedig â'r Wefan a gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol.

14.5 Mae enwau cynnyrch, nodau masnachu neu enwau gwasanaeth neu enwau cwmni a ddefnyddir ar y Wefan a/neu mewn cysylltiad â gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post

Brenhinol a Grŵp y Post Brenhinol yn nodau masnachu, nodau gwasanaeth, neu enwau busnes i'w perchenogion perthnasol. Mae "gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol" a geiriau penodol eraill a dyfeisiadau graffeg yn ymwneud â gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn enwau masnachu i Grŵp y Post Brenhinol. Trwy wneud nodau masnachu ar gael ar y Wefan, nid ydym yn rhoi unrhyw ganiatâd i Chi eu defnyddio.

15 GWEFANNAU A CHYNNWYS TRYDYDD PARTÏON

15.1 Gall y Wefan, gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol neu brosesau ategol gynnwys dolenni i wefannau Chynnwys Trydydd Partïon eraill yn ymwneud â chynnyrch a gwasanaethau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy fframiau. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn egluro ble mae dolenni o'r fath yn cael eu gwneud. Nid ydym yn gyfrifol am Gynnwys Trydydd Partïon nac argaeledd Gwefannau Trydydd Partïon.

15.2 Nid ydym yn ardystio nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw Gynnwys Trydydd Partïon, Gwefannau Trydydd Partïon, gwasanaethau neu gyngor (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r sylw, y safbwyntiau, neu'r argymhellion) a ddarperir gan drydydd partïon. Bydd angen i chi ddilysu'r wybodaeth a gwirio manylion yr hyn sy'n cael ei gynnig gan drydydd partïon o'r fath drosoch Chi eich hun.

15.3 Mae Cynnwys Trydydd Partïon a Gwefannau Trydydd Partïon gyda dolenni o'r Wefan yn destun telerau ac amodau a pholisïau preifatrwydd ar wahân i'r trydydd parti perthnasol a dylech Chi fod yn fodlon bod y cynnyrch a'r gwasanaethau hyn yn addas ar eich cyfer Chi.

16 TELERAU PWYSIG ERAILL

16.1 Mae'r Telerau ac Amodau hyn ynghyd â Pholisi Preifatrwydd a Pholisi Cwcis gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol yn ffurfio contract rhyngoch Chi a ni ar gyfer darparu gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol. Mae mwy o wybodaeth am wasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol ar gael ar ein Gwefan ac ym Mholisi Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth y Post Brenhinol, sydd ar gael ar wefan tScheme yn www.tscheme.org.

16.2 Nid oes gan unrhyw un arall unrhyw hawliau yn unol â'r contract hwn. Mae'r contract hwn rhyngoch Chi a ni. Ni fydd gan unrhyw berson arall unrhyw hawliau i weithredu unrhyw un o'i delerau. Ni fydd angen i'r naill na'r llall ohonom gael cytundeb unrhyw berson arall i ddod â'r contract i ben neu wneud unrhyw newidiadau i'r Telerau ac Amodau hyn.

16.3 Cynhelir yr holl gyfathrebu rhyngoch Chi a ni yn Saesneg oni chytunir fel arall.

16.4 Mae pob un o baragraffau'r Telerau ac Amodau yn gweithredu ar wahân. Os yw unrhyw lys neu awdurdod perthnasol yn penderfynu bod unrhyw un ohonynt yn anghyfreithlon, bydd y paragraffau sydd yn weddill yn dal mewn grym ac effaith lawn.

16.5 Bydd unrhyw hysbysiadau y byddwn yn eu hanfon atoch Chi yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost diweddaraf a roddwyd i ni gennych Chi. Gellir cyfathrebu unrhyw hysbysiadau a anfonir atom ni gennych Chi trwy Adran My Profile o'ch cyfrif Chi, trwy ein ffonio ni ar 0345 266 0116.

16.6 Os na fyddwn yn mynnu eich bod Chi yn cyflawni unrhyw un o'ch dyletswyddau Chi yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn, neu os nad ydym yn gweithredu ein hawliau yn eich erbyn Chi, neu os byddwn yn oedi wrth wneud hyn, ni fydd hynny'n golygu ein bod wedi ildio ein hawliau yn eich erbyn Chi ac ni fydd yn golygu na fydd yn rhaid i Chi gydymffurfio â'r dyletswyddau hynny. Os byddwn yn ildio diffyg daliad gennych Chi, byddwn yn gwneud hynny yn ysgrifenedig, ac ni fydd hynny'n golygu y byddwn yn ildio unrhyw ddiffyg daliad gennych Chi yn ddiweddarach yn awtomatig.

16.7 Caiff y Telerau ac Amodau hyn eu llywodraethu gan gyfraith Lloegr. Rydych Chi a ni yn cytuno i ufuddhau i awdurdodaeth llysoedd Lloegr nad yw'n egsgliwsif. Os ydych Chi yn preswylio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gallwch ddwyn achos yn y wlad lle'r ydych yn preswylio.